

# Cynigion Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith 2011

**Capel yr Annibynwyr Wrecsam (Ebeneser)  
10.30am, Dydd Sadwrn Hydref 8.**

## 1. DEMOCRATIAETH LEOL

Datganwn fod angen grymuso cymunedau lleol Cymru gyda'r gallu i reoli eu dyfodol a thynnwn sylw at symudiadau peryglus gan Lywodraeth Cymru i'r gwrthwyneb.

1. Mae Cymdeithas yr iaith yn datgan y gall symudiad tuag at uno gwasanaethau cyhoeddus a chreu'n ymarferol Gynghorau Rhanbarthol danseilio polisi clodwiw Cynghorau fel Gwynedd o weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ail ddatganwn fod angen i gyrff cyhoeddus gyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na dangos ffrynt dwyieithog yn unig i'r cyhoedd.
2. Nodwn hefyd ein pryder at ddefnydd Llywodraeth Cymru o gomisiynwyr i reoli gwasanaethau Llywodraeth leol. Gresynwn yn benodol at y sefyllfa yn Ynys Môn ble mae dau allan o dri chomisiynydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddi-Gymraeg ac yn methu cyflawni eu gwaith yn Gymraeg.
3. Ymhellach gresyna'r Cyfarfod Cyffredinol at y tueddiad ymysg arweinwyr etholedig cynghorau lleol i adael i swyddogion ffurfio polisi a rheoli gwasanaethau heb atebolrwydd democrataidd priodol.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## 2. CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Cred y cyfarfod Cyffredinol bod y Cynlluniau Datblygu Lleol sydd yn cael eu paratoi a'u trafod ar hyn o bryd ar hyd a lled Cymru yn anghynaladwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, ac yn bygwth dyfodol y Gymraeg yn hytrach na gweithio i'w diogelu.

Cred y Cyfarfod cyffredinol bod seilio'r Cynlluniau Datblygu Lleol o ddata poblogaeth y cyfnod cyn yr argyfwng economaidd presennol yn golygu eu bod yn anaddas ar gyfer cymunedau Cymru heddiw, ac na fyddant yn mynd i'r afael ag anallu pobl leol i aros yn eu cymunedau.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ar i Lywodraeth y Cynulliad fynnu bod Awdurdodau Lleol Cymru yn adalw'r holl Gynlluniau Datblygu Lleol a dechrau proses o ymgynghori o'r newydd, gan roi lle canolog i ystyriaethau ieithyddol.

Cynigydd: Grŵp Cymunedau Cynaliadwy

## 3. CYFARWYDDWYR ANNIBYNNOL I'R COLEG CENEDLAETHOL CYMRAEG

Mae Cymdeithas yr Iaith yn croesawu dyfodiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a dderbyniodd fyfyrwyr am y tro cyntaf y tymor hwn.

Mynegwn ein pryder, fodd bynnag, fod perygl na chyflawnir gwir botensial y datblygiad hanesyddol hwn. Pryderwn fod dyfodiad y Coleg yn ymddangos yn ymestyniad o'r hen drefn yn hytrach nag yn gyfle mawr newydd i roi hwb i addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol -

1. Fod gwefan y Coleg ar ddechrau Medi'n cynnwys 3 brawddeg gyffredinol iawn am "ehangu cyfleon" ac am adeiladu ar waith y gorffennol yn hytrach nag yn cyffroi darpar-fyfyrrwyr o ran y gallu i fod yn rhan o fentr newydd hanesyddol.
2. Nad oes unrhyw weledigaeth glir na strategaeth mewn lle wrth i'r Coleg yn cychwyn ar ei waith - dim ond bwriad i ddatblygu strategaeth.
3. Na fu unrhyw drafodaeth na sylw sylweddol i agoriad y Coleg
4. Nad yw'r cyfarwyddwyr "annibynnol" yn annibynnol o gwbl gan eu bod wedi cael eu penodi gan y sefydliad ei hun ac i gyd - ag un eithriad sydd ag arbenigedd ariannol - yn gweithio tu fewn i'r drefn addysg bresennol.
5. Nad yw cofnodion y Cyfarfod Cyfarwyddwyr wedi ymddangos yn gyhoeddus fisoedd wedyn.
6. Nad yw nifer o'r staff wedi cael u penodi tan fis cyn agoriad y coleg.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol fod hyn oll yn cadarnhau'r canfyddiad nad yw'r "coleg" hwn ond yn ymestyniad o'r drefn bresennol - tan reolaeth y sefydliadau addysgol presennol - yn lle bod yn gychwyn cyffrous newydd i addysg uwch Gymraeg. Nodwn y bu degawdau o ymgyrchu dros sefydlu coleg o'r fath ac ni ddylid colli'r cyfle'n awr.

Yn wyneb hyn, mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn gofyn i senedd y Gymdeithas sefydlu Bwrdd Cyfarwyddwyr Cysgodol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r gorchwylion o -

- a). Bwrw golwg cadarnhaol o feirniadol ar weithgarwch y Coleg
- (b) Cynnig cynlluniau ar gyfer datblygiad y Coleg.
- (c) Gweithredu fel Ombwdsman i fyfyrwyr - neu ddarpar-fyfyrrwyr - sy'n profi anawsterau yn eu hymwneud a'r Coleg.

Cynigydd: Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith.

#### **4. CYMRAEG YN Y GWEITHLE**

Noda'r Cyfarfod cyffredinol fod Cymdeithas yr iaith Gymraeg wedi ymgyrchu dros hawl lwyr a diymwad gweithwyr i siarad Cymraeg yn y gweithle ers helynt Brewer Spinks yn Nhanygrisiau (1965) hyd heddiw.

Er fod deugain a chwech o flynyddoedd wedi mynd heibio ers yr helynt hwnnw mae hawl ddiymwad person i siarad Cymraeg yn y gweithle yn cael ei herio yn barhaus.

Nodwn nad yw hwn yn fater rhwydd i'w ddwyn i lygad y cyhoedd gan fod ar y bobl a gosbir am siarad Cymraeg ofn colli eu swyddi o wneud cwyn gyhoeddus. Nodwn fod hon yn broblem mwy cyffredin nac y tybia llawer.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach nad yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Comisiwn Hawliau Dynol na Llywodraeth Cymru (trwy Fesur yr Iaith Gymraeg) wedi llwyddo i fynd i'r afael a'r anghyfiawnder hwn.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol felly yn galw ar i'r Grŵp Hawl i'r Gymraeg godi gyda gwleidyddion, Bwrdd yr Iaith a'r Comisiwn Hawliau Dynol achosion lle gwaherddir pobl rhag siarad Cymraeg yn y gweithle a chynrychioli unigolion heb i hynny effeithio mewn unrhyw ffordd ar eu cyflogaeth na'u hawliau fel dinasyddion.

Ymhellach mae'r Cyfarfod Cyffredinol awdurdodi y Grŵp Hawl i'r Gymraeg i drefnu ymgyrch egniol

fydd yn pwysu ar llywodraeth Cymru i roi yr hawl gyfreithiol ddiymwad i bob gweithiwr yng Nghymru gael siarad Cymraeg yn y gweithle.

Cynigydd: Ymgyrch Hawl i'r Gymraeg

## **5. YMGYRCH WEITHREDOL DROS S4C NEWYDD**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod Pwyllgor Craffu'r Mesur Cyrff Cyhoeddus wedi pleidleisio yn erbyn cynnig Hywel Williams AS, Susan Elan Jones AS a Mark Williams AS i dynnu S4C allan o'r Mesur Cyrff Cyhoeddus. Yn syth wedi'r bleidlais, cyhoeddwyd fod llywodraeth San Steffan a'r BBC wedi dod i drefniant mai'r BBC fyddai'n penderfynu ar gyllid S4C yn ystod blynyddoedd 2015-2017.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol bod y cyhoeddiad hwn yn dangos bod llywodraeth San Steffan a'r BBC wedi camarwain pobl Cymru wrth ddweud fod cyllid ac annibyniaeth S4C yn ddiogel. Cred y Cyfarfod Cyffredinol ymhellach fod angen deffro S4C a chwmniau teledu Cymru i wneud safiad yn erbyn y cynlluniau ar gyfer y sianel.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol i'r Gymdeithas ail-ddechrau ymgyrch effeithiol i ddangos bod cynlluniau llywodraeth San Steffan yn annemocrataidd ac annerbyniol gan bobl Cymru, a bod angen datganoli darlledu yn llwyr i Gymru a ffederaleiddio'r BBC. Penderfyna'r Gymdeithas i gynnal ymgyrch weithredol a fydd yn cynnwys gweithredu tor-cyfraith i bwysu am fformiwla cyllido teg ac annibyniaeth olygyddol a gweithredol i S4C. Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol y bydd angen i'r Grŵp Digidol drefnu'r ymgyrch genedlaethol hon.

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach bod angen ymgyrchu i gael S4C newydd a fydd yn sianel aml-blaffform. Rhaid cyd-weithio â'r undebau ar ymgyrchu i ddiwygio S4C, prosesau comisiynu S4C ac ymgyrchu hefyd i sicrhau tegwch i weithwyr y diwydiant o fewn y cwmnïau sy'n bwydo'r sianel aml-blaffform Gymraeg.

Cynigydd: Grŵp Dyfodol Digidol i Gymru

## **6. TELEDU LLEOL**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fwriad Llywodraeth San Steffan i sefydlu teledu lleol mewn amryw o fannau yng Nghymru.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach nad oes bwriad gan Lywodraeth San Steffan i osod amodau ieithyddol ar y gwasanaethau hyn.

O gofio methiant trychinebus radio masnachol i sicrhau lle priodol i'r Gymraeg, cred y Cyfarfod Cyffredinol fod perygl amlwg y gallai teledu lleol fod yn fyggythiad arall i le'r Gymraeg yn y byd cyfryngol.

Fe eilw y Cyfarfod Cyffredinol ar i'r Gymdeithas sicrhau priod le i'r Gymraeg ar unrhyw wasanaethau teledu lleol a sefydlir. Fe ddylai teledu lleol fod yn bennaf yn y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny ble mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol, ac ni ddylai unrhyw wasanaeth teledu lleol mewn unrhyw ran o Gymru gael darlledu trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

Cynigydd: Rhanbarth Morgannwg-Gwent

## **7. RADIO LLEOL YNG NGHYMRU**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol i Ofcom wrthod cynnwys cymal yn eu Cynllun iaith a fyddai'n golygu rhoi ystyriaeth i natur ieithyddol mewn trwyddedau radio lleol.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol fod Ofcom wedi gadael i'r farchnad anwybyddu'r Gymraeg yn achos radio lleol.

Cred y Cyfarfod Cyffredinol bod angen datganoli darlledu i Gymru a datganoli Ofcom i Gymru fel y gellir ystyried cynllun cenedlaethol ar gyfer radio lleol sy'n fwy addas ar gyfer Cymru. Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol i bwysu ar y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru am benderfyniad ynghylch a fydd cymal am ystyriaethau ieithyddol yng nghynllun iaith Ofcom.

Cynigydd: Grŵp Dyfodol Digidol i Gymru

## **8. Y GYMRAEG A'R RADIO CYMRU**

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn galw ar i Gymdeithas yr iaith Gymraeg i bwysu ar y BBC i sicrhau bod Radio Cymru yn wasanaeth cwbl Gymraeg.

Cynigydd: Menna Machreth  
Eilydd: Dafydd Morgan Lewis

## **9. SIANEL 62**

Fel prosiect i ddathlu 50 mlwyddiant y Gymdeithas, ac fel protest yn erbyn y diffyg rhaglenni heriol am y Gymru gyfoes, galwn am ddarllediadau wythnosol o sianel y Gymdeithas ar y we - Sianel 62 - o ddechrau Ionawr hyd at y Gig Fawr y Dathlu ym Mhontrhydfendigaid ar ddechrau'r haf. Ein gobaith yw y bydd trefnu prosiect o ddarlledu wythnosol am 6 mis yn sefydlu model cynaliadwy o ran cyfraniadau a chyllido.

Cynigydd: Senedd Cymdeithas yr iaith Gymraeg

## **10. CANOLBWYNTIO AR WEITHGARWCH RHANBARTHOL**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bwysigrwydd gwaith rhanbarthol i gryfder ein mudiad, a dim ond drwy weld rhanbarthau gweithgar y bydd yna unrhyw ddyfodol cynaliadwy i'r Gymdeithas.

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol ar i'r Gymdeithas yn ganolog weithio yn ystod y flwyddyn nesaf i weld ein rhanbarthau yn tyfu'n elfen hanfodol i holl benderfyniadau'r Gymdeithas, boed hynny yn benderfyniadau ar ymgyrchoedd, gweithredoedd a pholisïau.

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol felly ar Senedd y Gymdeithas i roi pob cymorth yn ystod y flwyddyn nesaf i wireddu penderfyniadau rhanbarthol ar draul penderfyniadau'r Senedd.

Galwa'r Cyfarfod Cyffredinol hefyd ar senedd y Gymdeithas i arwain ein hymdrechion i adeiladu ein rhanbarthau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cynigydd - Rhanbarth Gwynedd / Mon

## **11. ATAL WYLFA B**

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol drychineb niwclear Fukushima ym mis Mawrth eleni. Mae'r argyfwng yn parhau yno wrth i ymbelydredd ollwng i'r tir, môr ac awyr o'r tri adweithydd a ddifrodwyd yn helaeth yng ngorsaf Fukushima Daiichi. Nodwn ymhellach effaith wleidyddol y drychineb hon ar y diwydiant niwclear. Penderfynodd llywodraeth yr Almaen gau eu holl orsafoedd niwclear erbyn 2022. Cynhaliwyd refferendwm yn yr Eidal ddechrau'r haf pan bleidleisiodd 95% yn erbyn codi gorsafoedd niwclear newydd. Mae pobl Siapan yn rhoi pwysau ar eu llywodraeth i symud oddi wrth ynni niwclear.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach obsesiwn Cyngor Sir Ynys Môn a phleidiau gwleidyddol Môn gyda Wylfa B. Rhaid herio'r consensws gwleidyddol diog hwn a thanlinellu bod dulliau amgen amgylcheddol ddiogel o greu trydan. Pe bai prosiect Wylfa B yn mynd yn ei flaen, byddai effaith mewnlifiad miloedd o weithwyr adeiladu ar y Gymraeg yng nghymunedau Môn yn ddinistriol. Nodwn bod gorsaf bresennol y Wylfa wedi cyfrannu'n sylweddol at Seisnigo gogledd a dwyrain Môn. Yn adolygiad Estyn ar Ysgol Gynradd Cemaes yn 2006, canfuwyd mai 4% yn unig o'r plant a ddeuai o gartrefi Cymraeg.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach dactegau diweddar cwmni syrfewyr Fisher German yn gweithredu ar ran cwmni Horizon Nuclear ac yn pwysu ar berchnogion tir ac eiddo yn ardal y Wylfa i werthu. Cefnogwn safiad dewr ac egwyddorol Richard a Gwenda Jones, Caerdegog, Llanfechell yn gwrthod gwerthu talp sylweddol o'u fferm i Horizon Nuclear.

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn galw am ail gadarnhau gwrthwynebiad Cymdeithas yr Iaith i ynni niwclear. Mae'n dechnoleg beryglus, fudr ac eithriadol ddud ac yn perthyn yn agos i arfau niwclear. Fel mudiad sy'n arddel y dull di-drais, dylai Cymdeithas yr Iaith wrthwynebu ynni niwclear yn llwyr.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol eto ar i'r Gymdeithas i gefnogi ymgyrch PAWB, Pobl Atal Wylfa B trwy fynychu cynhadledd Cymru Werdd Ddiniwclear yn y Galeri, Caernarfon ar Hydref 22 ac ymhob ffordd ymarferol bosibl.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol hefyd am bob cymorth posibl i deulu Caerdegog, Llanfechell yn eu safiad yn erbyn gormes corfforaethol Horizon yn bygwth eu hetifeddiaeth a'u bywoliaeth.

Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd a Môn

# Cynnig Brys Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith 2011

## TREFN RHEOLI CYMDEITHAS YR IAITH

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol fod angen cynllunio ar gyfer dyfodol y mudiad gan gymryd i ystyriaeth rôl swyddogion cyflogedig a gwirfoddol.

Cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol mai cynyddu effeithlonrwydd ein rheolaeth ddemocrataidd, a chaniatáu amser i swyddogion gwirfoddol gyflawni orau eu gwaith ddylai fod ein blaenoriaethau wrth ystyried trefn reoli.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach fod trafodaeth ymhlith aelodau o Senedd Cymdeithas yr Iaith wedi dod at y model a ganlyn -

### 1) SENEDD

Senedd Cymdeithas yr Iaith fydd yn rheoli'r Gymdeithas rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol o'i haelodau oddi fewn i ganllawiau polisi a osodir gan Gyfarfodydd Cyffredinol. Bydd y senedd yn cyfarfod yn fisol - heblaw am y misoedd hynny pan fydd y Cyngor yn cyfarfod - ac yn cynnwys yr aelodau canlynol. Dim ond yr aelodau hyn a fyddant a hawl pleidleisio, er y bydd hawl i unrhyw aelod fynychu cyfarfod o'r senedd.

- Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith a fydd yn gyfrifol am reoli'r Gymdeithas wedyn rhwng cyfarfodydd senedd.
- Is-gadeirydd Gweinyddol - a fydd yn gyfrifol am ein gweinyddiaeth ac yn ateb i'r senedd ar ran y Swyddog Aelodaeth, Swyddog Codi Arian, Swyddog Mentrau Masnachol
- Is-gadeirydd Cyfathrebu - a fydd yn gyfrifol am beiriant cyfathrebu'r Gymdeithas ac yn ateb i'r senedd ar ran y Swyddog Gwefan a Dylunio, a Golygydd y Tafod.
- Is-gadeirydd Ymgyrchoedd - a fydd yn gyfrifol am sicrhau fod y Grwpiau Ymgyrchu'n weithredol
- Trysorydd - a fydd yn gyfrifol am gyfrifon y Gymdeithas
- Swyddog Ymgyrchu ar y We - a fydd yn hyrwyddo ein hymgyrchoedd ar-lein
- Swyddog Adloniant - a fydd yn creu bas-data o wybodaeth a chanllawiau ar gyfer Pwyllgorau Adloniant mewn rhanbarthau ar gyfer digwyddiadau arbennig.
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Grŵp Ymgyrch Addysg
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Grŵp Ymgyrch Dyfodol Digidol
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Grŵp Ymgyrch "Hawl i'r Gymraeg"
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd i'r Grŵp Cymunedau Cynaliadwy.

Disgwylir i Gadeiryddion Grwpiau Ymgyrchu gyflwyno adroddiadau blynyddol am eu gwaith, a bod yr adroddiadau hyn i'w hanfon allan ynghyd a phapurau enwebu swyddogion am y flwyddyn ganlynol.

### 2) CYNGOR

Bydd Cyngor y Gymdeithas yn cynnwys holl aelodau senedd y Gymdeithas ynghyd a dau gynrychiolydd o bob rhanbarth, ac yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ar adegau i'w penodi gan y Senedd. Cyfarfodydd Rhanbarth - wedi'u hysbysu i holl aelodau'r Rhanbarth - a fyddant yn gyfrifol am ddewis cynrychiolwyr o'r rhanbarth i'r Cyngor. Bydd cadeirydd y rhanbarth yn hysbysu'r Senedd o fanylion y cynrychiolwyr (a fyddant fel arfer yn cynnwys y cadeirydd ei hun) a bydd

cynrychiolwyr rhanbarth yn derbyn yn electronig copïau o bob dogfen a anfonir at aelodau'r Senedd, a chyda hawl i fynychu cyfarfodydd senedd, er na ddisgwylir iddynt ond dod at gyfarfodydd y Cyngor. Bydd hawl gan Gadeirydd Rhanbarth benodi dirprwy o gynrychiolydd os na bydd cynrychiolydd rhanbarthol yn gallu mynychu cyfarfod o'r Cyngor, a bydd yr un hawl pleidleisio gan y dirprwy. Y Senedd hefyd a fydd yn rheoleiddio ffiniau a chyfansoddiad rhanbarthau. Bydd y Cyngor yn fforwm ehangach ac yn derbyn adroddiadau gan y Rhanbarthau am waith a wnaed, am gynlluniau'r dyfodol, ac yn cynnwys asesiad o adnoddau cyfredol y rhanbarth a pha gynnydd a wnaed. Bydd fforwm y Cyngor hefyd yn gyfle i Grwpiau Ymgyrchu canolog osod gerbron cynrychiolwyr o ranbarthau eu strategaeth am y 4 mis canlynol. Bydd cyfle hefyd ym mhob cyfarfod Cyngor i drafod pwnc traws ymgyrchol o ddiddordeb hanfodol i'r Gymdeithas. Bydd i benderfyniadau'r Cyngor yr un grym ag sydd i benderfyniadau senedd, a hawl pleidleisio i'r cynrychiolwyr rhanbarth yn ogystal ag i aelodau'r senedd.

### **3) SWYDDI CANOLOG ERAILL**

Bydd y Swyddi Canolog hyn yn parhau tu fewn i'r Gymdeithas, ac yn cael eu hethol yr un amser, ac yn yr un modd ag aelodau'r senedd. Byddant yn adrodd i'r senedd trwy'r Is-gadeirydd priodol. Ni ddisgwylir eu presenoldeb mewn cyfarfodydd senedd er y gellid galw am eu presenoldeb am gyfarfod penodol o senedd neu Gyngor i drafod pwnc arbennig, a bydd ganddynt hawl - fel pob aelod - i fod yn bresennol ond heb hawl pleidleisio.

- Swyddog Codi Arian
- Swyddog Aelodaeth
- Swyddog Mentrau Masnachol
- Golygydd y Tafod
- Swyddog Gwefan a Dylunio

Bydd swydd Swyddog Gwreiddiwch yn y Gymuned yn cael ei dileu.

**Cynigydd – Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**